Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

At: Clercod Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

30 Gorffennaf 2021

Annwyl Gyfaill

Adolygiad o'r Fframwaith Taliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Pan gyhoeddwyd ein bod wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r trefniadau taliadau cydnabyddiaeth presennol ar gyfer cynghorau cymuned a thref, fe wnaethom ddisgrifio'r broses a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r sector, ynghyd â'r amserlen ar gyfer dod i gasgliadau.

Roeddem yn awyddus i sicrhau bod pob cyngor, a hefyd y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn cael y cyfle i gymryd rhan yn yr adolygiad. Mae'r lefel ymgysylltu wedi bod yn rhagorol, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu.

Mae'r Panel wedi ystyried yr holl sylwadau a syniadau a gafodd eu mynegi, gan ddod i gasgliadau cychwynnol. Pan ysgrifennais atoch ar ddechrau'r adolygiad, dywedais y byddem yn ymgynghori ar y cynigion ynglŷn â thaliadau cydnabyddiaeth i gynghorau yn y dyfodol, cyn llunio Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2022/2023. Mae'r papur ymgynghori sy'n disgrifio'r cynigion wedi ei atodi. Er eglurder, nid yw'n nodi symiau ar gyfer taliadau penodol, gan y byddai'r rhain yn benderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol.

Byddai'n panel yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cael sylwadau ar y cynigion, a ddylai gael eu hanfon i IRPMailbox@llyw.cymru erbyn **27 Awst 2021**.

Yn gywir,

John Bader
Cadeirydd